# CYLCHLYTHYR CARFAN GOFAL PLANT RHCT

RHIFYN 01 • MEHEFIN 2021

## SHWMAE A CHROESO

### I GYLCHLYTHYR NEWYDD CARFAN GOFAL PLANT RHCT.

**Bydd y cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi dair gwaith y flwyddyn a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y garfan a'r hyn rydyn ni'n ei wneud i roi cymorth i'ch busnes.**

Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth felly cysylltwch â ni.

Mae ein tudalen Facebook breifat yn ffordd wych o gael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd ar faterion sy'n effeithio ar y sector Gofal Plant, yn ogystal â gwybodaeth am hyfforddiant sydd ar ddod, dangos y ffordd at wasanaethau eraill a llawer o fuddion eraill.

## Ymunwch yma...

**https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT** neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

## Cwrdd â'r Garfan...

***Denise Humphries***
Mae Denise yn rheoli'r garfan ac yn gyfrifol am yr holl ddatblygiadau strategol o ran gofal plant, fel yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a phrosiectau cyfalaf sy'n gysylltiedig â gofal plant.

### *Carfan Datblygu Gofal Plant Cyffredinol:*

***Sian Wood***
Mae Sian yn arwain y garfan Datblygu Gofal Plant Cyffredinol. Mae modd iddi roi cymorth i chi gyda phob agwedd ar eich busnes a'ch hyfforddiant. Mae hi hefyd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu darpariaeth newydd mewn meysydd lle mae angen.

***Rachael Holley a Sian Sutton***
Mae Rachael a Sian yn rhoi cymorth ar bob agwedd ar ddatblygiad gofal plant, megis trefnu hyfforddiant, rhoi cymorth gyda chofrestriad ag AGC a helpu lleoliadau i wella/ehangu eu busnesau. Mae Rachael hefyd yn arwain ar ddiweddaru ein tudalen Facebook.

### Carfan Cynnig Gofal Plant Cymru:

***Rhys Picton***
Mae Rhys yn delio â phob agwedd ar waith gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant ac yn arwain ar waith prosesu hawliadau cyllido darparwyr a chynnal hyfforddiant ar y porth.

***Cathryn Herbert a Rachel Gunter***
Mae Cath a Rachel yn delio â phob agwedd ar waith gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant. Mae Cath hefyd yn gweithio gyda Darparwyr Addysg Cofrestredig (REPS) a'r adran Derbyn Disgyblion i ddyrannu lleoedd plant cyn-feithrin. Mae Rachel yn arwain ar brydlesi defnydd unigryw ar gyfer lleoliadau sydd ar safleoedd ysgolion ac yn rhoi cymorth gyda chynllun Grantiau Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant.

Carfan Gofal Plant yn RhCT Childcare Team in RCT

Cynnig GOFAL PLANT CYMRU The CHILDCARE Offer for WALES
Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf Family Information Service

Llywodraeth Cymru Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

50751-23

# Cynnig Gofal Plant Cymru / Addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN)

Anogwch eich rhieni sydd â phlant 3 a 4 oed i wirio a ydyn nhw'n gymwys a chyflwyno cais yma **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**. Mae'r broses gwneud cais ar gyfer plant sy'n dechrau ym mis Medi yn agor ar 5 Gorffennaf 2021 (plant sy'n 3 oed cyn 31 Awst 2021).

Gan fod y Cynnig Gofal Plant wedi'i gyfuno ag addysg meithrin y cyfnod sylfaen (cyn-feithrin), dylai rhieni hefyd wneud cais am eu lle addysg. Cyfeiriwch y rhieni at wefan www.rctcbc.gov.uk/derbyndisgyblion am ragor o wybodaeth.

Gall y broses ddrysu rhieni gan fod rhaid iddyn nhw wneud cais am wahanol bethau ar wahanol adegau, felly ceisiwch eu hannog i ddarllen y Llyfryn Dechrau'r Ysgol (ar gael ar dudalen we derbyn disgyblion) am wybodaeth ar beth i wneud cais amdano a phryd.

## Grantiau

Yn ystod 2020-21, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i roi cymorth i chi drwy effeithiau'r pandemig. Roedd modd i ni gynnig ystod o grantiau er mwyn rhoi cymorth i chi gyda rhoi mesurau diogelwch COVID ar waith, gwneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored, a chynnal swigod cymdeithasol. Roedd y grantiau a gafodd eu cynnig yn cynnwys y canlynol:

**Grant Darparwyr Gofal Plant** – i roi cymorth i chi gyda cholledion yn sgil COVID, megis cyfnodau cau o ganlyniad i achosion positif, treuliau ychwanegol, a chaledi ariannol sylweddol.

**Grant TGCh** – i ddiweddaru offer TGCh, sydd yn arbennig o hanfodol gan fod y mwyafrif o gyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar-lein.

**Grant Adnoddau** – ystod o becynnau adnoddau i gefnogi'r defnydd o'r awyr agored a chynnal swigod.

**Pecynnau Cyfarpar Diogelu Personol** – offer hanfodol i'ch helpu i gadw'ch lleoliadau'n lân a'ch staff yn ddiogel.

**Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn:**

"Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am yr adnoddau yma. Mae'r plant yn mwynhau darganfod yr holl eitemau newydd a chwarae gyda nhw!"

"Mae rhan o'r Nadolig wedi cyrraedd fy lleoliad.... diolch yn fawr. Mae gen i blant llawn cyffro heddiw."

"Ar ôl ein cyfarfod neithiwr, roeddwn i eisiau dweud diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud. Mae'r Cyfarpar Diogelu Personol a'r cyllid wedi bod o gymorth mawr, mae'r e-byst gwybodaeth yn wych, cadwch nhw i ddod. Ond yn bennaf, rydyn ni'n gwybod eich bod chi ar gael dros y ffôn neu e-bost a byddwch chi bob amser yn dod o hyd i ateb i'n cwestiynau neu broblemau."

Cofiwch gadw llygad ar eich cyfrif e-bost ac ymunwch â'n grŵp Facebook i dderbyn y newyddion diweddaraf am grantiau pellach posibl yn ystod 2021-2022.

## Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach Cynnig Gofal Plant RhCT 2020/2021

Cawson ni gyllid cyfalaf i roi cymorth i leoliadau gyda'r gwaith o wneud addasiadau i'w lleoliadau er mwyn helpu i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant, ac yn arbennig i wneud mwy o ddefnydd o'r awyr agored a mesurau eraill sy'n cydymffurfio â COVID.

Cafodd 31 o geisiadau eu cymeradwyo neu eu cymeradwyo'n rhannol yn ystod Rownd 2. Mae enghraifft o un prosiect i'w weld isod:

**CYN... | AR ÔL...**



Meithrinfa Oriau Dydd Home From Home, Porth

## Hyfforddiant

Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant wedi'i ariannu, fel Diogelu, Hylendid Bwyd, Cymorth Cyntaf i Blant, yn ogystal â chyrsiau DPP fel Arwain a Rheoli a Rheoli Ymddygiad Heriol. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd, gyda dim ond hyn a hyn o sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich adborth felly rhowch wybod i ni a oes angen cwrs hyfforddi arnoch chi dydyn ni ddim yn ei gynnig ar hyn o bryd.

Mae Rhys hefyd wedi bod yn cynnal hyfforddiant ar y Cynnig Gofal Plant. Bydd rhagor o sesiynau yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn felly cadwch lygad ar eich e-byst a'r cyfrif Facebook am wybodaeth ar ddyddiadau sydd i ddod.

## Cysylltwch â ni...

**01443 570048**

**www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant**

Carfan Gofal Plant:
**CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

Cynnig Gofal Plant Cymru (Darparwyr yn unig):
**DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

**RCT Childcare Team**